# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Gwanwyn 1997
AM DDIM (neu gyfraniad)


# Penblwydd Hapus, Gymru Ddi-Niwclear!

Bymtheg mlynedd yn ôl i'r mis Chwefror yma, penderfynodd yr olaf o siroedd Cymru, sef Clwyd, i ddatgan ei bod yn ardal ddi-niwclear, gan wneud Cymru'n wlad ddi-niwclear. Roedd yn cam dewr hwn yn ddatganiad o fwriad, ac yn neges ac yn esiampl i'r byd. Daeth yn sgîl ymgyrchu egnïol gan bobl 'gyffredin' Cymru, a gawsai eu dychryn, lawer ohonynt, gan y cyhoeddiad bod yr UD yn mynd i leoli taflegrau Cruise yn dwyn ergydion niwclear ym Mhrydain; gan ymgais y diwydiant niwclear i greu tomen wastraff niwclear yng Nghymru; a'r posibilrwydd y câi gorsafoedd ynni niwclear adweithydd dŵr tan bwysau eu hadeiladu yng Nghymru ac yn ei chyffiniau. Roedd Greenpeace wrthi eisoes hefyd yn rhybuddio pobl am y budreddi ymbelydrol roedd Windscale (Sellafield) yn eu gollwng i mewn i Fôr Iwerddon.

## Cymru Niwclear

Roedd gan Gymru, wrth gwrs, sefydliadau niwclear o fewn ei ffiniau: gorsafoedd ynni niwclear Wylfa a Thrawsfynydd, a ffatri Ordnans yn Llanisien yng Nghaerdydd a oedd yn cynhyrchu casys i ddal ergydion niwclear. Fe'i bygythid hefyd gan lygredd o sefydliadau niwclear yn Lloegr a, fel y profodd Chernobyl ym 1986, o wledydd pellennig.

## Gwell rhwystro'r clwy na'i wella

Roedd Cymru Ddi-niwclear yn realistaidd ac yn ddoeth. Gwelid ei bod yn hanfodol lleihau peryglon technoleg niwclear i gymunedau yng Nghymru, hyd yn oed oni ellid eu hatal. Ymunodd cynghorau Cymru â mudiad oedd wedi deillio o'r mudiad Di-Niwclear, sef yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear. Mae'r mudiad hwn yn meithrin cydweithrediad rhwng ei aelod-awdurdodau di-niwclear, yn ceisio gwneud y diwydiant niwclear yn fwy atebol, a gwarchod y cyhoedd rhag peryglon niwclear. Yn hytrach na chlirio'r llanast mae technoleg niwclear yn gadael ar ei hôl, cred ei bod yn well rhwystro'r clwy yn y lle cyntaf. Mae wedi ymgyrchu'n dorfol ar lu o faterion – yn cynnwys ymgyrch lwyddiannus yn erbyn cynnig gan y llywodraeth i ddefnyddio safleoedd eladdu sbwriel leol ar gyfer gwastraff niwclear; mynnu y dylai rhannau o'r gynlluniau dadgomisiynu Trawsfynydd fod yn destun caniatâd cynllunio; a darparu gwybodaeth gynnar a chyngor arbenigol i gynghorau ar faterion niwclear a allai effeithio ar gymunedau yng Nghymru. Efallai bod manylion y broblem niwclear wedi newid mewn 15 mlynedd, ond mae'n gymaint o fygythiad ac o berygl ag oedd ym 1982. Byddai llawer o bobl yn dweud bod hyd yn oed mwy o angen amddiffyn ein planed heddiw.


## Babanod a baneri


Bu llawer ohonom, a gredai'n ddwys y dylai ein cyngor benderfynu bod yn ddi-niwclear, yn sefyll y tu allan i gyfarfodydd Cyngor Sir ym 1981 a 1982, gyda'r babi ar un fraich a baner yn y dwrn arall. Rydym wedi gwylio ein plant yn tyfu ochr yn ochr â Chymru Ddi-niwclear ac yn rhan o'r mudiad. Wrth i'r babanod hynny, sydd bellach yn eu harddegau, edrych ymlaen at eu bywydau, gobeithiwn yn daer y byddant yn dwyn gyda hwy obaith angerddol y penderfyniad hwnnw ym 1982 o blaid Byd Di-niwclear.

Mae CND Cymru yn falch o'r Gymru Ddi-niwclear. Teimlwn, wrth i agweddau tuag at arfau ac ynni niwclear newid ledled y byd, mai'n gwaith ni fel dinasyddion y wlad ddi-niwclear hon yw cynnig gobeithion a syniadau newydd am ffyrdd o ymateb i'r her, tra'n hamddiffyn ein hwyrion yn erbyn etifeddiaeth yr hunllef niwclear. Darllenwch Ddatganiad Clwyd 1982 eto (yn y rhifyn hwn) ac ymfalchïwch hefyd!

**Penblwydd Hapus i'r Gymru Ddi-Niwclear, a llawer ohonyn nhw!**

*Jill Stallard*






**H HEDDWEITHREDU**

*Rhowch wybod i'ch awdurdod unedol gymaint yr ydych yn gwerthfawrogi bod yn rhan o Gymru Ddi-niwclear!*

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Datganiad Clwyd

## 23 Chwefror 1982

Mae'r penderfyniad a wnaed heddiw gan Gyngor Clwyd yn datgan eu bod yn cyhoeddi eu sir yn ddi-niwclear o arwyddocâd arbennig i Gymru gyfan. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gwnaed penderfyniadau tebyg yn un Sir Gymreig ar ôl y llall, gan ddechrau gyda Dyfed a diweddu gyda Clwyd.

Mae hi wedi bod yn amlwg ers tro fod pobl Cymru yn gytun ar y mater yma. Mae'r grwpiau gwrth-niwclear gwirfoddol sydd wedi ffurfio yma a thraw wedi cydweithio er mwyn ceisio cael Cymru i'w chyhoeddi ei hun yn wlad ddi-niwclear, ac mae'r naill arolwg ar ôl y llall wedi dangos bod cefnogaeth lethol i'r ymgyrchu ymysg pobl sy'n pryderu ynglyn â helaethu'r rhaglen niwclear ac sy'n ceisio'r hawl i leisio'u barn eu hunain am ddyfodol y ddynoliaeth.

Yn dilyn y penderfyniad yma heddiw, rydym yn gallu datgan i'r byd fod Cymru gyfan, drwy ei chynrychiolwyr etholedig democrataidd, wedi'i chyhoeddi ei hun yn wlad ddi-niwclear. Trwy'r weithred hon mae Cymru wedi rhoi arweeiniad moesol i wledydd eraill Ewrop a'r byd.

Wrth gyflwyno iddynt ein neges o obaith ac ysbrydoliaeth, rydym yn galw ar genhedloedd eraill Ewrop i roi gwybod i'r byd gymaint yw ein pryder am ddyfodol gwareiddiad. Rydym yn galw arnynt i ymdynghedu i achub Ewrop rhag dinistr llwyr drwy gymryd y cam cyntaf a chyhoeddi eu gwledydd yn ddi-niwclear.

Arwyddwyd gan (ymhlith eraill):
Gwynfor Evans
Henry Roberts (Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd)
Cynrychiolydd Plaid Cymru
Cynrychiolydd y Blaid Ecoleg
R.S. Thomas
Dafydd Ellis Thomas
John Landon
Ennys Kelly
E. Griffiths (Cadeirydd Cyngor Gwent)
W.R. Phillips (Cyngor Sir Powys)
R.G. Harris (Cyngor Sir Dyfed)
Robert Morgan (Arweinydd Cyngor Sir De Morgannwg)
Morgan Chambers (Cyngor Sir Morgannwg Ganol)
Martyn D. Jones (Cyngor Sir Clwyd)
Owen Hardwicke (CND Cymru a Pax Christi)

# Gynnau a batiau criced

Ag yntau â gwraig sy'n Bennaeth Lluoedd Arfog Prydain y gall eu harfau niwclear, o fewn munudau, ddinistrio sawl dinas o faint Llundain, efallai nad syndod llwyr yw hi bod gan y Tywysog Philip agwedd ddirmygus tuag at beryglon gynnau – i'w gymharu, rhaid eu bod yn ymddangos yn bethau pitw.

"... pe penderfynai cricedwr fynd i mewn i ysgol yn sydyn", meddai'r Tywysog mewn cyfweliad diweddar ar y radio, "a churo pentwr o bobl yn farw â bat criced, peth y gallai ei wneud yn hawdd iawn, wel, er mwyn dyn, ydych chi'n mynd i wahardd batiau criced?"

Dyna lefel aruchel y "ddadl ynnau". Roedd cefnogwyr rheoli gynnau wedi gwylltio'n gacwn tra'r oedd y garfan o'u plaid wrthi'n llongyfarchch y Dug am ei "ddewrder" yn dweud ei farn.

Wrth gwrs, mae hi'n wir bod dryllau, fel batiau criced neu'r cyllyll 'amhosib'-eu-diffinio oll yn wrthrychau di-fywyd ac os gadewch chi nhw'n gorwedd o gwmpas wnân nhw ddim drwg i neb; rhaid wrth fymryn o help llaw dynol i'w troi'n arfau marwol. Dyma, yn ei hanfod, yw unig ddadl an-fasnachol, an-hunanol carfan y gynnau – nid gynnau sy'n lladd, ond pobl. Ar un ystyr mae hwn yn asesiad mwy cywir o'r sefyllfa na'r hyn a gynigir gan ran cefnogwyr rheoli gynnau, tan, hynny yw, i ni ddeall y gallwn ni fodau dynol ladd heb hyd yn oed gyffwrdd â'r glicied.

Fyddwch chi ddim yn synnu i glywed na fedrais ddod o hyd i un achos o unrhyw un unrhyw le yn y byd yn mynd ar gyrch llofruddiol mewn ysgol neu unman arall â bat criced, tra bod enghreifftiau o lofruddio â gynnau yn rhemp, hyd yn oed os anwybyddir rhyfeloedd. Mae rheswm da dros hyn, sydd fel pe bai wedi osgoi sylw'r tywysog da.

Y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng bat criced a gwn yw y dyfeisiwyd y naill ar gyfer chwarae gêm, nid chwalu pennau pobl, tra dyfeisiwyd y llall, a'i berffeithio dros y blynyddoedd, i un diben yn unig – sef lladd. Dyna'r ystyr a'r arwyddocâd mae unrhyw wn, sut bynnag y defnyddir ef neu ba ddrôr neu holster bynnag y gadewir ef ynddo, yn ei ddwyn gydag ef, a dyna pam mai dyna ddewis arf unrhyw berson ymarferol sydd am ladd. Gall dyn dorri gwddf rhywun â chyllell, chwalu pen rhywun â ffyn golff a lladd pobl â cheir modur, ond gwneud rhyw ddefnydd gyda-llaw yw hyn o offer a grewyd i ddibenion eraill cwbl resymol – dyna fel mae pethau. Ond mae gwn neu unrhyw gynrychiolaeth o wn, yn wahanol i fat criced, yn dwyn gydag ef, ac yn trosglwyddo i'w berchennog, elfen o'i wreiddiau llofruddiol a'i hanes gwaedlyd.

Ni ddyfeisiwyd gynnau i amddiffyn, i'r gwrthwyneb, arfau treiswyr a gormeswyr fuon nhw erioed, gwyr gwallgof am bwer a ddygai ac a lofruddiai er mwyn hunan-fawrhad. Mae derbyn gwn neu gynrychiolaeth ohono i mewn i'n bywyd yn derbyn bod iddo bwrpas cyfreithlon. Boed yn nwylo'r heddlu, y saethwyr neu blant â'u gynnau tegan, neu ar ryw ffurf ffantastig yn perthyn i'r dyfodol, y neges a ymgorfforir yn y gwn yw bod lladd i gael eich ffordd eich hun yn dderbyniol. Er nad yw hyd yn oed hynny wedi llwyddo i'n troi'n llond gwlad o lofruddion gwallgof.

Mae hanner miliwn o blant, yn ôl adroddiad diweddar gan Fudiad Iechyd y Byd, wedi marw yn Iraq o ganlyniad i Ryfed y Gwlff y chwaraeodd milwyr Prydeinig, gyda chefnogaeth rhannau helaeth o'r cyhoedd, ran bwysig ynddo. Ychydig iawn o bobl ym Mhrydain a daniodd unrhyw wn, ond rhoddodd y mwyafrif sêl eu bendith i 'Desert Storm' a phopeth a ddilynodd. Mewn termau cyfreithiol, nid llofruddiaeth oedd hynny, ond mewn cymhariaeth, mae'r hyn a ddigwyddodd yn Dunblane fel dim. Mae'n debyg yr achoswyd y lladdfa a'r gwae yn Dunblane gan unigolyn gorffwyll tra achoswyd y lladdfa yn Iraq gan bobl yr ymddengys eu bod yn eu gall ac yn eu hiawn bwyll. Diau bod gan y Dug eglurhad chwareus.

***Jan Melichar***

***Ymddangosodd yr erthygl hon gyntaf yn Peace Matters, cylchgrawn y Peace Pledge Union, 41b, Brecknock Road, Llundain N7 0BT.***

# Gwylnos y SAA, Llanishen (1982 – 1997)




## Ai rhywbeth i'w wneud â ni oedd y ffaith i'r Ffatri Ordnans Frenhinol yn Llanisien, un o faestrefi Caerdydd, arddel enw llai llednais, mwy gonest yn y pen draw?

**B**u'r ffatri, a sefydlwyd ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd ym 1939, yn rhan allweddol o'r rhaglen arfau niwclear o 1963 ymlaen, ffaith nad oedd yn hysbys i'w chymdogion swbwrbaidd, na gweddill y boblogaeth ychwaith. Nid tan 1981 y gallodd ymgyrchwyr heddwch lleol, gan ddilyn trywydd gwahanol ddigwyddiadau anesboniadwy, allu cyhoeddi'r newyddion brawychus bod darnau ar gyfer ergydion niwclear yn cael eu cynhyrchu ym mhrifddinas Cymru, proses a ddefnyddiai nid yn unig ddeunydd ymbelydrol lefel-isel ond hefyd y metel marwol beryliwm. Er gwaethaf pob ymgais swyddogol i wadu hynny, tystiai dogfennau swyddogol a ddaeth i feddiant yr ymgyrch mai dyna'r gwir, a phrofasant yn nes ymlaen bod ROF Llanisien yn rhan o'r rhaglen Trident.

Wedi i'r y llen o ddirgelwch gael ei rwygo ymaith , rhoddodd y diwydiant amddiffyn y gorau i esgus a – cyn preifateiddio, fel a wnaed gydag Aldermaston a Burghfield – galw pâl yn bâl, neu o leiaf galw ffatri fomiau niwclear yn Sefydliad Arfau Atomig.

Aed ati i hysbysu'r cyhoedd o fodolaeth yr ROF a'u gwneud yn ymwybodol o'i gwaith mewn llawer ffordd, a bu rhaid ymdrechu'n ddi-baid dros flynyddoedd lawer. Yn sicr, dyfal donc oedd hi i'r grŵp bychan o fenywod sydd wedi cynnal gwylnos wythnosol bob bore Gwener (neu bron bob un!) am y pymtheg mlynedd diwthaf.

Dyma leisiau dim ond rhai o'r menywod sydd wedi cymryd rhan dros y blynyddoedd hynny:

* Protestiadau gwrth-niwclear Caerdydd oedd y rhai cyntaf i mi fod yn rhan ohonynt, nôl yn nyddiau coleg. Yr orymdaith gyntaf i mi fynd arni erioed oedd yr un o SAA Llanisien i ganol y ddinas. Symudais o Gymru am chwe blynedd a mynd yn rhan o Fudiad Heddwch y Menywod. Pan ddychwelais a darganfod bod Gwylnos Menywod yn dal i gael ei chynnal yn Llanisien, wrth gwrs, roedd rhaid i mi fod yn rhan ohoni!

* Er nad wyf yn foregodwraig wrth natur, a hyd yn oed mewn tywydd oer a gwlyb, pan wyf wedi ymdrechu i fod yno rwyf wedi cael fy ngwylnosau y tu allan i'r SAA yn ddifyr ac yn werth-chweil. Maent wedi bod yn werth-chweil o ran atgoffa teithwyr ar eu ffordd i'r gwaith yn y dre neu yn Swyddfa'r Dreth Incwm drws nesa o natur anfoesol y gwaith a wnaed y tu fewn i'r SAA .

* Syniad menywod o Gymru oedd yr orymdaith a arweiniodd at sefydlu Gwersyll Heddwch Menywod Comin Greenham lle bûm yn byw a gweithio am saith mlynedd. Pan symudais i Gaerdydd ym 1992, cefais yr un ysbryd a oedd wedi esgor ar Greenham yn y menywod a dystiai'n rheolaidd yn erbyn Trident. Yr oeddwn – ac rwy'n dal i fod – yn falch iawn i ymuno â'r menywod hyn bryd bynnag y medraf ar foreau Gwener. Mae dim ond bod yno gyda dyfal-barhad ac argyhoeddiad, yn fy mhrofiad i, yn un o'r ffurfiau mwyaf grymus o weithredu uniongyrchol di-drais.

* Rai misoedd yn ôl arhosodd gweithiwr am sgwrs fer gyda mi ar ei ffordd i mewn i'r ffatri, gan gloi â'r geiriau "Rwy'n gwir edmygu'r hyn rydych chi wedi'i wneud". Bydd y geiriau hynny'n aros gyda mi, nid yn unig oherwydd y ganmoliaeth (er bod rhan ohonof yn dirgel fwynhau hynny hefyd!) ond oherwydd ein bod ein dau yn cydnabod, er gwaethaf y bwlch rhyngom, bod gennym rai gwerthoedd yn gyffredin, a pharch at ein gilydd. Rhaid ei fod wedi bod yn gam mawr iddo ddweud y fath beth, ac rwy'n ei edmyugu am hynny.

* Wrth sefyll y tu allan i'r SAA ar fore Gwener, dwi'n teimlo 'mod i'n cynrychioli llawer sy'n methu bod yno, a llawer nad ydyn nhw'n dewis bod yno – ond pan fyddaf yn teimlo'n gryf ynglyn â rhywbeth, rhaid i mi weithredu ar fy naliadau – gan mwyaf!

* Ar lefel bersonol, mae'r wylnos yn fan cyswllt â menywod sy'n meddwl yr un fath â mi ac yn ffordd gorfforol o fynegi fy nghariad at y wlad hon, a'm hatgasedd at y ffordd yr ydym wedi ei thrin. Fedrwn i ddim mynd i gerdded yn rhydd ar ein bryniau hardd oni bai 'mod i'n gwrthbwyso hynny drwy gymryd rhan mewn gwrthdystio a gweithio i newid pethau.

* Doeddwn i ddim yno ar y cychwyn, ac aeth y boreau tywyll a'r tarth yn drech na mi, felly fydda'i ddim yno ar y diwedd. Ond gadawais fy maneri i'm cynrychioli.

* Clymu baneri â bysedd gwlyb. Sgyrsiau gwych â ffrindiau. Codi llaw ar yrrwyr yn canu corn cefnogol. Teimlad o gyflawni rhywbeth pan lwyddon ni i gael cyfarchiad gan weithiwr.

* Beth yn y byd wna'i nawr fore Gwener am 7.00 . . . ?

Bydd yr wylnos yn dod i ben, wrth i'r ffatri ei hun gau, yn haf 1997. Ond bydd y gwaith o gynhyrchu arfau niwclear yn dal i fynd yn ei flaen rywle arall . . .

***Alison Jackson***



# Belau Ddi-Niwclear: wedi ei gwerthu i Fyddin yr U.D.?

Daeth Isabella Sumang a Cita Morei o gadwyn ynysoedd Belau yn y Môr Tawel i siarad yng Nghaerdydd yn ddiweddar fel rhan o daith ymgyrchu ryngwladol.

Mae'r menywod hyn yn cynrychioli brwydr menywod Belau i gadw a pharchu eu cyfansoddiad di-niwclear. Fel Cymru, datganodd Belau ei bod yn wlad ddi-niwclear yn y 1980au. Fodd bynnag, gorfodwyd llywodraeth Belau i arwyddo "Cytundeb Rhydd Gysylltiad" ag UDA ym 1994. Sicrhaodd y Cytyndeb hwn hawl i'r UD i ddefnyddio tir a môr Belau i ddibenion milwrol am 50 mlynedd wedi hynny. Yn dâl am hynny, rhoddodd yr Unol Daleithau ryw $450 miliwn o gymorth economaidd i Belau am y pymtheg mlynedd cyntaf gyda darpariaethau amhenodol am y blynyddoedd wedi hynny. Mae'r trefniant yn destun pryder mawr ymhlith poblogaeth Belau. Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys opsiwn niwclear. Nid yw'r UD yn adnabyddus am ei gofal am amgylcheddau bregus a iechyd a hawliau pobl frodorol.

Tra bydd lluoedd arfog yr UD yn defnyddio tir prin a dyfroedd Belau, mae rhan o'r gadwyn o ynysoedd yn cael ei defnyddio i ddifa argau cemegol o'r U.D.

Yn ystod eu taith annerch o gwmpas gwledydd Prydain a'u hymweliadau â gwersylloedd heddwch menywod yn Aldermaston a Chomin Greenham, dywedodd y menywod wrthym bod ein hymgyrchu gwrth-niwclear a thros heddwch yn rhoi nerth iddynt. Ysbrydolwyd llawer ohonom ninnau gan eu dewrder a'u hegni. Mae'r ddwy nôl yn Belau bellach, yn prysur ysgrifennu pennod newydd yn eu brwydr i barhau i fod yn wlad ddi-niwclear.

Women for a Nuclear Free and Independent **Pacific**



■ *Isabella Sumang o Belau yn siarad yn y Gynhadledd ar Drais, Camdriniaeth a Dinasyddiaeth Menywod, Brighton.*

*Llun: Brenda Price/Format*

**WEITHREDU**

Fel llawer o bobl yng Nghymru, mae pobl y Môr Tawel am fagu eu plant mewn amgylchedd di-niwclear ac nid ydynt am gael eu gorfodi gan unrhyw wladwriaeth niwclear i buteinio eu tir i ddibenion anfoesol sydd yn niweidio'r amgylchedd. Mae'n gyfrifoldeb arnom i'w cefnogi.

Gellir cysylltu â Menywod dros Fôr Tawel Di-niwclear ac Annibynnol, sydd yn cyhoeddi llythyr newyddion ardderchog, d/o: 89 Great Russell Street, Llundain WC1B 3PS (0181) 809 2388).

Pasiwyd y cynnig hwn yng Nghynhadledd CND Prydeinig yn cefnogi pobl Belau:

Mae arfau niwclear yn peryglu ac yn niweidio'r Trydydd Byd mewn llawer ffordd. Mae'r niwed eisoes wedi bod yn anferth, niwed sydd yn realaeth feunyddiol i bobl ym mhedwar ban y byd. Gorfodwyd y cylchred niwclear ar bobloedd y De eisoes – drwy fwyngloddio a phrofion niwclear a chanolfannau milwrol. Defnyddir cynnyrch y cylchred niwclear hwn wedyn i gefnogi strategaethau milwrol economaidd sydd yn sicrhau tra-arglwyddiaeth buddiannau'r Gorllewin. Mae'n hanfodol ein bod ni yn y mudiad heddwch yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â phobloedd y Trydydd Byd a gwrthwynebu tra-arglwyddiaeth economaidd pwerau'r Gorllewin. Estynnwn gyd-gadernid arbennig i bobl Belau, gan gydnabod ein cysylltiadau fel pobloedd dwy ynys wedi ein dal yn rhwymau strategaethau niwclear byd-eang.

• *Gofynnwch i'ch aelod Seneddol arwyddo Cynnig Diwrnod Cynnar 233 sydd yn annog y Llywodraeth i bwyso ar yr U.D. i beidio â manteisio ar opsiwn milwrol/niwclear y Cytundeb gan y byddai'n troseddu yn erbyn Cytundeb Cylchfa Ddi-Niwclear y Môr Tawel, y Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear, ac yn ychwanegu at y niwed genetig a barwyd eisoes i bobloedd y Môr Tawel.*

*(Gall Cynnig Diwrnod Cynnar gael ei drafod, yn ddamcaniaethol, yn Nhy'r Cyffredin os daw busnes y dydd i ben yn gynnar – yn ymarferol, ni fydd hyn yn digwydd, ond defnyddir y Cynnig fel ffordd o wneud ASau yn ymwybodol o fater neilltuol.)*

*Am destun llawn y Cynnig, cysyllter â Jill Stallard.*

# Dipyn o job

Rai misoedd yn ôl, cyhoeddodd Michael Portillo becyn gwerth £3.5 biliwn ar gyfer awyrennau milwrol newydd a thaflegarau, a fyddai, meddai ef, yn creu 2,600 o swyddi newydd, sef £1.3 miliwn y swydd.

Yn ddiweddarach, cyhoeddodd y byddai Prydain yn cyfrannu £15 biliwn pellach tuag at yr "Eurofighter" a fyddaiu'n creu 14,000 o swyddi ym Mhrydain – dim ond £1 miliwn y swydd, neu £275 ar gyfer pob copa walltog ym Mhrydain. Ar yr un diwrnod, cyhoeddwyd efallai y byddai rhaid i ysbyty plant yn Derby (cost £17 miliwn) gau oherwydd toriadau gwario,

O Peace Matters

**WEITHREDU**

*Beth am ofyn i'ch AS faint o swyddi y gellid fod wedi eu creu mewn iechyd, addysg neu yn wir bron unrhyw sector arall am yr un faint o arian?*





## Pobl gyffredin – yn newid barn y cadfridogion

Mewn cyfweliad yn y New York Times ar Ionawr 8fed, siaradodd y Cadfridog George Lee Butler, Pennaeth Rheolaeth Arfau Niwclear yr UD tan dair blynedd yn ôl, am y modd y bu iddo newid ei farn am arfau niwclear. Dywedodd "mae gofyn i ni feddwl yn fwy eofn am gamau newydd ar unwaith ... rhaid i ni symud y tu hwnt i agweddau fesul- cam, dibynnu-ar-niferoedd, lleihau-graddol, blynyddoedd-ar-y-tro y Rhyfel Oer o sicrhau gostyngiadau mewn arfau niwclear".

Mae'n gobeithio y bydd ei sylwadau ar ddiarfogi niwclear yn gosod toriadau "eofn" ar agenda uwchgynhadledd a drefnwyd rhwng Clinton a Yeltsin ym mis Mawrth.

Mae'r Cadfridog Butler yn dadlau bod "amserau newydd yn mynnu ffyrdd newydd o feddwl", ac mae'n priodoli'r newid yn ei agwedd tuag at arfau niwclear i'r protestiadau byd-eang yn erbyn profion niwclear Ffrainc yn Ne'r Môr Tawel yn hydref 1995. Meddai am y protestiadau gwrth-niwclear: "Mae llywodraethau ymhell ar ôl y cyhoedd yn y pethau hyn . . . neges waelodol (y protestwyr) oedd: 'clywch, mae'r oes niwclear ar ben. Peidiwch â dod â hi nôl'.

## Alexander Nikitin yn rhydd

Diddymwyd y cyhuddiadau yn dwyn y gosb eithaf a ddygwyd yn erbyn Nikitin, a garcharwyd am ddatgelu bod llongau tanfor niwclear yn Rwsia yn gollwng yn beryglus. Cafodd ei ryddhau ond ni chaiff ymadael â St. Petersburg.

## Bwrdd Croeso Cymru yn cymeradwyo Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa

Ymwelodd mwy na 42,000 o bobl ag Wylfa y llynedd – roedd 8,000 ohonynt yn blant ar dripiau ysgol. Pelydrai Bwrdd Croeso Cymru â llawenydd ym mis Ionawr pan ddyfarnodd 92% i'r orsaf wrth roi sêl ei fendith swyddogol arni.

Tra bod plant yn heidio drwy'r ganolfan ymwelwyr, mae safonau diogelwch yn yr orsaf Magnox yn cael eu peryglu gan dargedau ariannol afrealistig ac amhosibl eu cynnal a osodwyd gan Magnox Electricity. Gwelodd Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa nifer anferth o ddamweiniau a'r naill anap ar ôl y llall. Chwedl un o aelodau CND Cymru: "Mae'n ddigon drwg cael eich atgoffa am hunan-hysbysebu Magnox, ond wela'i ddim pam mae rhaid i Fwrdd Croeso Cymru wneud gwaith cysylltiadau'r wasg, fel gwas bach i Magnox Electric!"

**WEITHREDU**
*Os teimlwch bod y Bwrdd Croeso ar fai, ysgrifennwch at Y Cadeirydd, Ty Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF2 1UY.*

## Dilead 2000

Cynghrair Cymru yn erbyn Arfau Niwclear sydd yn cyd-gysylltu'r rhwydwaith byd-eang hwn o fudiadau ac unigolion yng Nghymru. Mae mwy na saith cant o fudiadau (yn cynnwys CND Cymru) o chwe chyfandir wedi cadarnhau'r Datganiad Dileu – cynllun 11-pwynt i ddileu arfau niwclear, gan wneud y mudiad yn un gwirioneddol fyd-eang. Mae Dilead 2000 bellach yn gofyn i awdurdodau lleol i gadarnhau'r Datganiad.

Mewn cynhadledd Dilead 2000 a gynhaliwyd yn Tahiti a Moorea fis Ionawr, cafodd y cyfranogwyr gyfle i asesu cyflwr y byd niwclear, cydgysylltu strategaethau, a chyfnewid gwybodaeth â phobl o bedwar ban.

**WEITHREDU**
*Cynhwyswyd copi o Addewid Dinesydd Dilead 2000 yn y rhifyn blaenorol o Heddwch. Os hoffech gael mwy o gopïau neu wybodaeth am Ddilead 2000, cysylltwch â George Crabb, os gwelwch yn dda, Y Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Tel: (01446) 774452*

## Chernobyl: lewcemia yng Ngroeg

Groeg oedd un o'r gwledydd yr effeithiwyd arni waethaf gan y llwch ymbelydrol o'r ddamwain niwclear yn Chernobyl ym 1986. Yn awr, mae gwyddonwyr yn darganfod, er gwaethaf adroddiadau swyddogol o gynhadledd a gynhaliwyd fis Ebrill diwethaf gan yr Awdurdod Ynni Atomig, yr Undeb Ewropeaidd, a Mudiad Iechyd y Byd, bod plant yn Ngroeg fel pe baent yn datblygu lewcemia. Mae canlyniadau'r ymchwil wedi ei seilio ar gyfatebiaeth glir rhwng lefelau o ymbelydredd a ddioddefwyd a chyfraddau lewcemia plentyndod. Disgwylir dros yr 85 mlynedd nesaf y bydd 6,600 yn marw o'r cancr yn y rhanbarthau llygredig, y gellir priodoli eu marwolaeth i'r ddamwain honno.

## Chernobyl – ffermydd yng Nghymru

Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig ym mis Ionawr y codwyd y gwaharddiadau a osodwyd yn sgîl damwain niwclear Chernobyl o 28 o ffermydd defaid yng ngogledd Cymru. Roedd y gwaharddiadau'n effeithio ar 5,000 o ffermydd yn y cylch yn wreiddiol. Er hynny, llaciwyd y gwaharddiadau yn raddol. Mae gwaharddiadau ar 380 o ffermydd o hyd, gyda 2 filiwn o ddefaid yn dal dan effaith ymbelydredd.

Nid yw hynny'n golygu bod yr ymbelydredd 'wedu mynd i ffwrdd', dim ond ei fod wedi symud i mewn i rannau eraill o'r gadwyn fwyd nad ydynt yn cael eu harwylio, yn cynnwys pobl, neu wedi cael ei olchi i lawr gan y nentydd o'r ffermydd mynydd – i'r gorlifdiroedd a'r aberoedd, ac ymlaen i mewn i Fôr Iwerddon.

## NIREX: "diogelu ein planed"

Datgelwyd yn ddiweddar bod NIREX – y cwmni sy'n gyfrifol am gael gwared o wastraff niwclear – yn gwybod ers amser maith bod y 'Labordy Nodweddiad Craig' arfaethedig yn Sellafield yn sefyll ar ffurfiant daearegol ansefydlog!

Os gwrthodir eu cais cynllunio ar gyfer y 'labordy' hwn, bydd NIREX yn edrych am safle arall i storio gwastraff o dan ddaear.

Rhaid i ni fod yn ymwybodol o unrhyw gynigion yn y dyfodol a pharhau â'n hymgyrch i gau pob sefydliad niwclear, a storio pob gwastraff niwclear ar y safle lle cynhyrchwyd ef, uwch law'r ddear, mewn ffurf y gellir cyrraedd ato, ond wedi ei ynysu rhag y bïosffer.

## Ysgol gynradd ym Môn yn mabwysiadu peiriant lladd

Ym mis Ionawr, adroddodd papur-newydd yng ngogledd Cymru ar ymweliad plant o Ysgol Gynraedd Bodedern ag RAF Y Fali. Dangosodd llun iasoer y plant yn wên i gyd yn sefyll nesaf at awyren Hawk gydag enw eu hysgol yn addurno trwyn yr awyren. Pan ofynnwyd iddo, dywedodd y prifathro eu bod wrthi'n gwneud prosiect ar gludiant a'i fod felly'n

▶ *Parhad ar y tudalen nesaf*

meddwl ei bod hi'n bridol mynd â'r plant i astudio'r awyren ryfel Hawk. Cyfwelodd y BBC ag ymgyrchwyr heddwch lleol a ddywedodd mai prif swyddogaeth awyren Hawk yw lladd: lladd pobl ar y ddaear a phlant, yn union fel rhai Ysgol Gymraeg Bodedern.

**# WEITHREDU**
*Efallai mai doeth fyddai egluro'r gwahaniaeth rhwng dulliau cludiant a dulliau o ladd i'r Prifathro, Ysgol Gynradd Bodedern, Ffordd yr Eglwys, Bodedern, Ynys Môn, neu'r Cyfarwyddwr Addysg, Richard Ll. Parry, Cyngor Sir Môn, Llangefni LL77 7TW.*

## Gwahardd y bom

Mae'r syniad o gael gwared o'r Bom yn lledaenu. Ar ôl adroddiad Stimson a Chomisiwn Canberra, cyflwynodd mwy na thrigain o gadfridogion o bedwar ban, lawer ohonynt yn gyn-swyddogion aruchel yn yr UD a Rwsia, ei cynllun manwl er cael gwared o arfau niwclear yn llwyr.

Yna, daeth y cyfoethogion (Arweinwyr Byd Byd Busnes dros Dwf a Sefydlogrwydd Byd-eang) i gefnogi'r cadfridogion a nodi bod "brawychaeth a rhyfel yn effeithio ar elw, yn arafu masnach... ac yn gyrru'r twristiaid ymaith".

Maen nhw'n iawn, 'chi.

Yna roedd Araith y Frenhines i agor y sesiwn seneddol yn cynnyws Mesur yn cadarnhau llofnodi'r CGPC. Dim son amdano eto, ond byddwn yn gofyn cwestiynau seneddol llym os nad ymddengys cyn bo hir.,

Mae arwyddwyr newydd y CGPC yn cynnwys y Fatican, sy'n dweud ei bod yn ystyried y cytundeb nid fel dim ond mesur atal lledaenu ond cam tuag at ddiarfogi niwclear.

**# WEITHREDU**
*Llythyron, os gwelwch yn dda, at JohnGummer ac Anne Widdecombe yn gofyn am eu sylwadau.*

## Poison gas

Mae'r UD yn bwriadu cael gwared o hyd at 50 tunnell fetrig o blwtoniwm drwy ei droi'n danwydd ocsid cymysg (MOX) ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear.

Gan nad oes gan yr UD ffatri gwneud MOX, a ffatri BNFL i agor ymhen rhyw flwyddyn, mae tebygrwydd gwirioneddol y bydd tunelli o blwtoniwm yn cael eu hedfan i mewn i Faes Awyr Caerliwelydd mewn cynhwysyddion a all wrthsefyll cwymp o 9 m. a chyflymder gwrthdaro o 30 m.y.a.

Mae'r UD yn bwriadu ail-ddechrau cynhyrchu tritiwm hefyd. Yma eto, gan ddibynnu ar wrthwynebiad lleol, efallai mai'r peth hawsaf iddi ei wneud fyddai rhoi'r cytundeb i orsaf niwclear Chapelcross.

Yn y cyfamser, mae dogfennau cyfrinachol o'r WeinAm yn cadarnhau bod sgandal y llongau tanfor a dynnir o wasanaeth y llynges yn gwaethygu. Yn groes i ddatganiad Portillo, ni wyr y WeinAm ddim hyd yn oed faint o wastraff ymbelydrol a fydd ynddynt na sut i ymdrin ag ef. Hyd yn oed os bydd storfa ddofn NIREX wedi ei hadeiladu, heb son am fod yn barod mewn pryd erbyn 2012, mae'n debyg na dderbynid yr adweithyddion a'r gwastraff yno.

# Llythyron diweddar i Heddwch gan ffrindiau yn y Byd Newydd

### Seattle, Washington, UDA
*21 Rhagfyr 1996*

Annwyl Heddwch,

Diolch eto am ddanfon Heddwch. Mwynheais yr erthygl am Gomin Greenham yn fawr iawn. Dwi'n mynd i ddanfon copÿau o'r darnau am ymbelydredd ym Môr Iwerddon i'r wasg Gymreig-Americanaidd. Mae hynny'n sicr yn newyddion pwysig. Roedd erthygl gennyf ar un adeg am gyfraddau cancr uchel yng ngogledd Cymru. Tybed a oes perthynas achos – ac – effaith greddadwy yma?

Roedd cyfeiriad byr ar y newyddion henner-dydd ddoe at roi'r gorau i ddefnyddio'r awyrennau bomio A6 yng Ngorsaf Awyr y Llynges, Oak Harbour. Maent wedi bod yn ymarfer hedfan yn isel o gwmpas famma, ond welais i erioed awyren fomio oedd yn hedfan yn isel, na neb arall dwi'n eu nabod. Sut bynnag, maen nhw'n mynd i roi awyrennau jamio radar yno yn eu lle. Doedd y stori ddim ar y newyddion min-nos, er bod ganddyn nhw ffilm a gymerwyd gan ffotograffydd pan oedden nhw ar daith fomio hedfan-isel. Dangosai sut yr hedfanai'r A6 i'r fan ar uchder o 500 tr., troi wyneb-i-waered i weld y targed (mae'n gweithio'n well felly), yna, ei hunioni ei hun, plymio ac esgus gollwng bom.

Heddwch,
Carol Woods

### Paradise, South Australia
*1 Ionawr 1997*

Annwyl Jill a Heddwch,


Roedd yn wych cael darllen yr holl newyddion yn rhifyn yr Hydref, ond hyd yn oed yn fwy cyffrous gweld y gefnogaeth sydd i achosion heddwch a chyfiawnder pwysig ym mhedwar ban y byd.

Bob blwyddyn bydd Ymddiriedolaeth Graham Smith (lleol) yn cynnig grant i brosiectau celfyddydau. Llynedd, fe'i rhoddwyd i Dde Awstraliad ifanc, Paul Rees, i sgwennu drama yn seiliedig ar achos Mordechai Vanunu. Fe'i hysbrydolwyd gan ei waith ymchwil dechreuol, ac ni phetrusodd y panel i'w gefnogi. Cafodd y ddrama, "Moordy" ei darlleniad cyhoeddus cyntaf a chael croeso brwd, a gobeithir ei llwyfannu am y tro cyntaf eleni. Dim ond $2,000 y gallem ei roi iddo ond fe'i cefnogir gan Praxis, grwp theatr lleol, a gobeithir gallu ei theithio yn Awstralia. Cewch wybod ei hanes..

Rwyf wedi sgwennu at Mordechai ond heb gael ateb eto. Rydym yn ceisio cael yr ymddiriedolwyr i sgwennu hefyd.

Diolch am Heddwch. Byddaf yn edrych ymlaen ato bob tymor ac ni fethais eich neges ar y clawr. Gobeithio y cewch chi a'r holl CNDwyr 1997 lwyddiannus a llawen.

Cariad a heddwch,
David Trelulcock




***Nodyn y Golygydd: Mae Mordechai Vanunu yn derbyn Heddwch – danfonwn ninnau yng Nghymru ein cofion cynnes ato, ein cariad a'n dymuniadau angerddol am gyfiawnder***

### The Nuclear Resister, Tucson, Arizona, UDE
*Rhagfyr 1997*

Llongyfarchiadau ar enwebu Jill fel Menyw Ewrop!

Mae Heddwch yn llawn newyddion da – fel hanes Greenham a'r ffaith bod gwersyll Faslane i barhau. Roedd Felice yn Israel ym mis Hydref ar gyfer Cynhadledd Vanunu.

Gwyliau Llawen,
Dymuniadau gorau yn '97,
Jack a Felice (Cohan-Coppa)

# Dadgomisiynu Trawsfynydd – beth Nawr?



Amlinellwyd cynllun (osgoi) dadgomisiynu Trawsfynydd ym mis Medi 1994. Golyga adeiladu 'storfa ddiogel llai o uchder' dros bob adweithydd cyn diwedd y degawd, a gohirio clirio'r safle'n derfynol tan y flwyddyn 2136.

"... mae record trefn gyffredinol cymdeithas yn ein gwlad yn ddigon i warantu na fydd unrhyw derfysgoedd mawr a fyddai'n tanseilio diogelwch y strwythurau hyn na'n gallu ninnau i'w dymchwel yn llwyr ar derfyn dydd."

(John Moares, Rheolydd Gorsaf Trawsfynydd ar y pryd, ar 'Eye on Wales' BBC Cymru 18 Medi 1994.)

## Y cynllunio

Ym mis Gorffennaf 1995, addefwyd bod angen caniatâd cynllunio ar y 'storfa ddiogel'. Dywedodd Alun Ellis, rheolydd yr orsaf y gosodid cynnig ger bron 'y flwyddyn nesaf' (rhoddwyd diagram i'r pwyllgor cyswllt yn dangos y broses ddadgomisiynu fesul cam a nodai 1 Ionawr 1996). Rhaid danfon Datganiad Effaith Amgylcheddol (DEA) gyda cheisiadau o'r fath. Yn gynnar ym 1996, dywedwyd gan Magnox Electric na osodir y cais ger bron tan yr hydref oherwydd ad-drefnu llywodraeth leol, mwy o waith ar 'ymddangosiad allanol' ac oherwydd bod British Energy yn cael ei lawnsio. Byddai pibell newydd i mewn i'r rhannau llai llygredig o'r llyn, i ddwyn ymaith y 'golchion' a gynhyrchid wrth ddadlygru dur a choncrid ymbelydrol, yn destun cais cynllunio cyfochrog, ond defnyddid yr un DEA ar ei gyfer.

## Osgoi yn gyfrwys

Yna, ym mis Rhagfyr 1996, yn lle gosod cynnig a DEA ger bron, ymgeisiodd Magnox Electric i Barc Cenedlaethol Eryri, yr awdurdod cynllunio, am 'dystysgrif datblygu cyfreithlon'. Dywedodd Alun Ellis bod yr ymgais hon i osgoi'r drefn gynllunio arferol yn angenrheidiol er cyflawni addewid i'r gymuned leol i leihau effaith weledol yr adweithyddion a sicrhau y byddai cau'r orsaf yn effeithio cyn lleied â phosib yn y tymor byr ar yr economi leol. "Os bydd oedi , yna ni fyddem yn cyflawni ein hymrwymiad."

## Oedi!

Mae'n amlwg mai bai Magnox Electric yw unrhyw oedi, ac mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gwbl iawn i fynnu cais cynllunio llawn. Os yw'r drefn ddemocrataidd gywir yn golygu oedi, yna dylid gweld hynny yng nghyd-destun penderfyniad ar ddadgomisiynu sydd yn cywasgu dros 170 mlynedd o reolaeth ar wastraff ymbelydrol i mewn i un amser ac un lle. Mae yma oblygiadau dwfn na welwyd eu bath o'r blaen.

Efallai y caiff y cynllun 'storfa ddiogel' ei 'alw i mewn' am benderfyniad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr her fydd sicrhau nid yn unig y clywir barn y gymuned leol yn y broses benderfynu, ond bod ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol dros genedlaethau lawer yn cael eu hystyried. Nid oedd cysyniad 'datblygiad cynaladwy' yn bod pan gynlluniwyd Trawsfynydd ym 1956.

Mewn rhagolwg ar y Papur Gwyn ar reoli gwastraff niwclear, cydnabu'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, John Gummer, y rhoddir y flaenoriaeth i'r dull 'safle fesul safle' o fynd i'r afael â dadgomisiynu yn hytrach na'r 'strategaeth gyfeirio' 100 mlynedd bresennol. Dywedodd wrth y Senedd ar 9 Mai 1995:

"... y byddai'n annoeth ar hyn o bryd i weithredwyr gorsafoedd ynni niwclear gymryd camrau a fyddai'n blaen-gau'n dechnegol neu economaidd y posibilrwydd o gwblhau'r broses ddadgomisiynu ar amserlen gynt pe bai angen hynny."

Trawfynydd yw'r prawf cyntaf ar y polisi newydd.

Dylai'r DEA, y cynlluniau dadgomisiynu, a'r holl ddogfennau a rhagdybiaethau cefndir oll fod yn destun archwiliad cyhoeddus trylwyr dros ben. Dylid ystyried y materion a ganlyn:

- Yr holl bapurau cefndir a arweiniodd at ddatblygu ei strategaeth o oedi cyn dadgomisiynu.
- Asesiadau amgylcheddol ac effaith cymdeithasol eu cynlluniau am y 150 mlynedd nesaf.
- Asesiadau cymharu risg o amserlenni dadgomisiynu amgen.
- Prawf bod y dechnoleg yn bod i lwyr ddadgomisiynu adweithydd Magnox maint-llawn.
- Prawf bod cymdeithas y dyfodol y gofynnir iddi ymgymryd â'r gorchwyl yn deall y dechnoleg honno, yn gwbl hyddysg yng ngweithrediad adweithyddion Magnox, ac yn fodlon ymgymryd â'r gorchwyl.
- Prawf y bydd digon o arian ar gael i ymgymryd â'r gorchwyl, fel na fydd diffyg arian yn ei gwneud yn amhosibl eu dymchwel.

## Troi cefn ar y broblem

Os na all Magnox Electric brofi'r holl bwyntiau hyn, y casgliad yw y bwriedir troi cefn ar adweithyddion Trawsfynydd am byth. Os yw hynny'n bosibilrwydd, yna dylai'r 'storfa ddiogel' bondichrybwyll gael ei barnu ar sail lawer mwy llym.

- A yw hwn yn safle addas ar gyfer tomen wastraff niwclear?
- A yw hwn yn ddyluniad addas ar gyfer tomen wastraff niwclear?
- A ellir gwarantu diogelwch strwythurol creiddiau'r adweithyddion am byth?
- A ellir gwarantu diogelwch strwythurol blociau concrid yr adweithyddion (y tariannau biolegol) am byth?



**WEITHREDU**

*Os teimlwch y dylai Magnox Electric osod cais cynllunio llawn ger bron, ynghyd â DEA, ysgrifennwch at Swyddog y Parc Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LS. Gofynnwch iddynt eich hysbysu am broses gynllunio Trawsfynydd, a dywedwch pam rydych yn poeni.*

*I fynd â'r ymgyrch yn ei blaen, dewch i gyfarfod yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen ger Machynlleth ddydd Sul 2 Mawrth am 11.00am.*

*Hugh Richards ar ran CWNC, (Tel: 01982 570362)*

# Rhybuddion newydd am berygl llongau niwclear i arfordir Cymru

Rhybuddiwyd cynrychiolwyr cynghorau mewn cyfarfod o Fforwm Ardaloedd Di-niwclear Cymru (sydd yn cynnwys yr holl awdurdodau unedol ac eithrio Bwrdeistref Casnewydd a Sir Benfro) yn Aberhonddu ym mis Ionawr o adroddiad newydd ag ymhlygiadau difrifol i ddiogelwch llongau'n cario gwastraff ymbelydredd uchel gwydredig (GYUG) drwy Fôr Iwerddon.

Mae adroddiad a baratowyd gan y 'Sefydliad Rheolaeth Niwclear' yn Washington yn rhybuddio pe bai un o'r cynwysyddion GYUG hyn yn gollwng yn ddifrifol y wynebai'r cyhoedd lefelau o ymbelydredd cronig lawer iawn uwch na'r hyn a ganiateir gan safonau rhyngwladol. Pe digwyddai damwain oddi ar arfordir Cymru, amcangyfrifir y ceid dôs 46-gwaith yn fwy na'r terfyn a ganiateir ar gyfer aelodau'r cyhoedd, o dan yr amgylchiadau gwaethaf.

Bydd trefniadau rhwng BNFL a gorsafoedd niwclear yn Siapan yn golygu y cludir gwastraff ymbelydrol dros ben o Sellafield, drwy borthladd Barrow a Môr Iwerddon. Meddai Brian Murray, Cadeirydd Cyngorau Di-Niwclear Cymru: "Ar ôl trychineb y Sea Empress, rydym oll yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd o longddrylliad difrifol ger ein glannau. Mae'r astudiaeth ddiweddaraf hon yn dangos yn glir y gallai damwain gyda gwastraff niwclear beryglu iechyd y cyhoedd yn ddifrifol a difetha economÿau lleol... byddwn yn ceisio cefnogaeth ein HSau a'n HSAau a chymorth y llywodraeth genedlaethol a chynghorau lleol yn Iwerddon y gwyddom eu bod yn llawn mor bryderus."

**WEITHREDU**


*Cysylltwch â'ch cynghorydd/cyngor lleol, AS ac ASE gan ofyn am sicrwydd – beth maen nhw'n ei wneud i atal y perygl? Am fwy o wybodaeth ar y mater hwn, cysylltwch ag CND Cymru (01551) 750 260.*

# Deg ar Hugain Arian BNFL

Mae Ymddiriedolaeth y Goedwig wedi derbyn BNFL yn aelod corfforaethol. Eu dadl, wedi i aelod o CND gwyno, yw bod BNFL yn dangos ei ewyllys da tuag at yr amgylchedd drwy blannu sgrîn o goed i guddio gwaith Springfield. Ysywaeth, mae Byddin yr Iechydwriaeth hithau wedi derbyn swllt BNFL ar gyfer prosiect dinas-fewnol.

Gan bod llawer o aelodau CND yn perthyn i fudiadau eraill, carwn ofyn am eich help chi i lunio a chyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n derbyn cefnogaeth gan BNFL. Tybed fedrech chi holi o gwmpas? Mae'n amlwg bod BNFL wedi penderfynu ceisio swyno pawb, a thra bod hawl gan bob unigolyn benderfynu drosto'i hun, mae gan aelodau CND hawl i wybod pwy sy'n cefnogi unrhyw elusen neu achos da cyn cyfrannu iddo.

"A pha fath o fyd fydde hwn tase pawb yn penderfynu claddu ei ben yn y tywod?"



# Ymbelydredd yn bygwth Môr Iwerddon

## Adroddiad CND Teifi/Preseli

Daeth Chris Busby a Richard Bramhall o Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel y Blaid Werdd i annerch cangen CND newydd-ei-ffurfio Teifi/Preseli ar beryglon damwain niwclear ym Môr Iwerddon. Dysgodd y grwp bod:

- Llongau tanfor niwclear yn ymarfer ym Môr Iwerddon. Mae eu hadweithyddion niwclear yn chwydu ymbelydredd i'r môr. Mae pob llong danfor Trident (UD neu Brydeinig) yn cario hyd at 128 o ergydion niwclear. Byddai hyd yn oed ffrwydrad an-niwclear neu dân ar long danfor niwclear yn gwasgaru llu o radionwclidau – yn cynnwys y mwyaf peryglus o'r cwbl, plwtoniwm. Mae Môr Iwerddon yn gymharol fas ac yn brysur dros ben.
- Cludir rhodenni tanwydd niwclear yn rheolaidd rhwng Sellafield a'r Almaen, Siapan a'r Swisdir. Cludir hyd at chwech llond fflasg o rodenni ar bob taith. Llunir fflasgiau o'r fath i wrthsefyll tân 800 gradd centigrad am 30 munud – ond mae tanau llong yn aml yn llosgi am amser maith, ar dymheredd llawer uwch.
- Mae pob damwain ar fôr ar drugaredd tywydd cyfnewidiol a chyflwr y llong ei hun, ac y mae'n amheus iawn a ellid achub llong yn cludo deunydd niwclear neu'n rhedeg ar ynni niwclear mewn pryd i'w hatal rhag gollwng llwyth trychinebus o ymbelydredd i'r môr. Honnir bod Lloyds yn anhapus ynglyn â'r sefyllfa, gan na hysbysir llongau eraill o amserau teithio'r llongau hyn na'r manylion am eu cargo niwclear. Pan aeth y llong deithwyr Wyddelig Norrona ar dân 25 milltir o dre Penfro ym 1990, cymerodd 30 munud i'r gwasanaethau brys ei chyrraedd. Does dim gwasanaeth achub hofrennydd ym Mreudeth bellach.
- Gallai canlyniadau damwain niwclear ddifrifol oddi ar arfordir Cymru lygru'r tir a'r môr cyfagos yn ddifrifol, boed drwy fod gwynt o'r môr yn chwythu mwg yn llawn radionwclidau i'r lan, neu ddim ond y tonnau'n golchi gronynnau llygredig ar y traethau, i mewn i aberoedd afonydd, a thu hwnt. Dangosodd Chernobyl sut y gall systemau tywydd eu hunain gludo radionwclidau filoedd o filltiroedd.
- Mae gan Gymru gyfraddau cancr eithriadol o uchel eisoes. Mae cyfradd lewcemia plant yng Ngwynedd chwe gwaith yn uwch na chyfradd East Anglia. Ddwy flynedd ar ôl Chernobyl, cynyddodd lewcemia plant 50% ymhlith plant 0 i 4 oed yng Nghymru. Cred yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel na chydnabyddir gwir effeithiau ymbelydredd o waith llaw dyn, a gall fod yn achosi clefyd y galon, babanod ysgafn eu pwysau geni, marwolaethau yn y groth ac yn union wedi geni, cancr yr esgyrn a'r from, a thyfiannau ar yr ymennydd. Maent yn ofni mai'r clystyrau presennol o lewcemia plant fydd y norm oni weithredir ar fyrder.

Awgrymodd Chris Busby a Richard Bramhall ffyrdd o weithredu ar y materion hyn:

- eu codi gyda darpar-ymgeisyddion seneddol y pleidiau
- pwyso ar reolwyr, cyrff ymchwil ac elusennau cancr
- cefnogi pob her wleidyddol a chyfreithiol i BNFL
- galw at BNFL i beidio â gollwng gwastraff i'r môr bellach
- galw am astudiaeth o achosion o gancr ar hyd glannau Cymru
- gofyn i awdurdodau lleol a'r Adran Iechyd ynglyn â chynllluniau argyfwng
- galw am arolygon annibynnol, rheolaidd i fesur faint o radionwclidau sydd ar arfordir Cymru, ei hafonydd a'r berfeddwlad.

**WEITHREDU**

*Am fwy o wybodaeth ar yr Ymgyrch Ymbelydredd Leflel-isel, cysyllter â Richard Bramhall: (01982) 552 502*

*• Am wybodaeth bellach am ymgyrchoedd CND Teifi/Preseli, cysyllter â Paul HawkesL (01239) 614 856.*

# Dyddiadau Dyddiadur

**Chwefror 23** 15fed Penblwydd Hapus, Gymru Ddi-niwclear! Danfonwch gerdyn at eich cyngor lleol yn eu llongyfarch – dywedwch wrthynt mor falch yr ydych o fod yn byw mewn dinas neu sir, a gwlad sydd am fod yn ddi-niwclear – da chi, gwnewch hynny – mae pawb yn haeddu cefnogaeth a dioch!

**Chwefror 28** 8pm (gellir dod i edrych o 6pm) Gwesty'r Talbot, Aberystwyth. Arwerthiant Celf i helpu Prosiect Plant Chernobyl. Mae artistiaid lleol wedi cyfrannu gwaith i helpu i ddod â 10 plentyn i Aberystwyth am wyliau mewn amgylchedd cymharol anllygredig – mynediad £1. Croesewir unrhyw gyfraniadau pellach o weithiau celf! *Cysyllter ag: Olwen Davies (01970) 611994*

**Mawrth 4** 10.30am – 4.30pm MOX – Y Ffics Technegol Nesaf i'r Diwydiant Niwclear? Seminar undydd yn Hen Neuadd y Dref, Caerliwelydd, Cumbria. Gwelir tanwydd ocsid cymysg (MOX) ar gyfer adweithyddion niwclear confensiynol fel ffordd o ymdrin â'r pentyrrau o blwtoniwm sifil a milwrol sydd wedi crynhoi. Beth yw ymhlygiadau strategol, amgylcheddol, gwleidyddol a thechnegol rhaglen o'r fath? Bydd cludo'r fath danwydd o Sellafield i dir mawr Ewrop yn golygu ei hedfan dros Gymru. Croeso i bawb i'r seminar hon a'r cyfarfod cyhoeddus fin nos. *Gwybodaeth bellach gan Nigel Chamberlain: (01768) 898641.*

**Mawrth 14-17** Ail-weu Gwe Bywyd – Gweithred Menywod Faslane. Penwythnos o weithredu a gweithgareddau yng Ngwersyll Heddwch Faslane i ddathlu Wythnos Ryngwladol y Menywod ac atal Trident. Dewch â charpiau i'w gweu, gweithdai yn cynnig cerddoriaeth a lleisiau, torrwyr, paent a syniadau gweithredu. *Mwy o wybodaeth/negeseuon cefnogi/arian i 'Gweithred Menywod Faslane', Peace House, 34 Byrton St., Tormorden, West Yorkshire OL14 5HS.*

**Ebrill 19** 11.00am. Cyngor CND Cymru, Ty Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod. Croeso i bob unrhyw aelod o CND Cymru neu gynrychiolydd mudiad cysylltiedig – *mwy o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd Cenedlaethol.*

**Ebrill 26** 11eg mlwyddiant damwain niwclear Chernobyl. *Dylai'r rheini â diddordeb mewn gweithredu uniongyrchol ar y diwrnod hwn gysylltu â Rod Stallard (01550) 750 260*

**Mai 9-11** (nos Wener i bnawn Sul) Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston, Dathliad Calan Mai a Phrotest yn erbyn Anghyfreithlondeb ac Anfoesoldeb Gallu Milwrol Prydain. Heddwch-Dawnsio-Neidio tân-Gweithdai ac ati. Croeso i bob menyw – croeso i ddynion ymweld yn y dydd. *Mwy o wybodaeth gan Sian (01222) 396563.*

**Awst** Taith Feiciau Menywod ar y Ffordd dros Heddwch. *Mwy o wybodaeth gan Sian (01222) 396563.*

**Bob Bore Gwener** 7.30am Gwylnos Menywod SAA Llanisien. *Cysyllter â Marjorie (01222) 753961*

**Gwersylloedd Heddwch Parhaol**
Gwersyll Heddwch Menywod Menwith Hill, Swydd Efrog. Cysyllter â (01943) 468 593
Gwersyll Heddwch Faslane, Swydd Dumbarton. Cysyllter â (01436) 820901.

**Gwersylloedd Heddwch Menywod Rheolaidd**
Aldermaston: Ail benwythnos pob mis. Cysyllter â (0117) 939 3746.
Burghfield: Penwythnos olaf pob mis. Cysyllter â (01703) 554434.
Sellafield: Penwythnos olaf bob yn ail fis. Cysyllter â (01482) 463 768.

## Newydd oddi wrth Fasnachu CND Cymru!



**Casét Sain Areithiau Martin Luther King**

Yn cynnwys araith 'Mae gen i Freuddwyd' ac eraill

**£4.95 yn cynnwys cludiant**

– • –

**Teis Glas Tywyll â symbolau CND gwyn (1cm o ddiametr)**

**£3.85 yn cynnwys cludiant**

**Ar gael gan:**
**Masnachu CND Cymru, d/o Jan Henderson, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN (sieciau'n daladwy i Masnachu CND**

## EISIAU – Gwirfoddolwyr ar gyfer Gwyl Glastonbury 1997

Unwaith eto, bydd CND Cymru'n helpu i ofalu am y llefydd cloi eiddo yng ngwyl Glastonbury a gynhelir eleni ar benwythnos 27/28/29 Mehefin

Gall gwirfoddoli yn yr Wyl fod yn waith caled ond yn hwyl hefyd; mae'n cyfrannu at lwyddiant yr Wyl ac yn codi arian i CND Cymru ar yr un pryd. Dylid nodi y bydd rhaid i chi golli rhai o'r cyngherddau – ond ar y llaw arall, cewch weld llawer iawn o'r achlysur heb orfod prynu tocyn.

Am wybodaeth bellach, danfonwch at Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN.

Dim ond ychydig o lefydd sydd ar gael – felly, "y cyntaf i'r felin" fydd hi.

GLASTONBURY FESTIVAL of Contemporary Performing Arts

# Bryn Elltyd



**Gwyliau yng Ngogledd Cymru**

*Bryn Elltyd – tŷ teuluol traddodiadol Cymreig yn nythu yng nghanol y Moelwyn rhwng Llan Ffestiniog a Phorthmadog*

Dringwch greigiau'r Moelwyn neu'r Rhinog. O fewn cyrraedd hawdd i Eryri, y Carneddau, y Glyder Fawr a'r Glyder Fach. Ewch mewn canŵ ar afonydd lleol, yr aber, llynnoedd neu'r mr. Mae pobl leol ar gael i'ch tywys neu'ch hyfforddi. Mae amrywiaeth hynod o goedwigoedd, traethau, cestyll, trefi marchnad a chwareli llechi yn y cylch.

Mae gan y tŷ olygfeydd gwych a thair llofft, stafell molchi, lolfa, stafell fwyta a chegin gyda phob cyfleuster modern.

Mae Bryn Elltyd ar gael drwy gydol y flwyddyn fel llety hunan-ddarmerthol neu ar sail Gwely a Brecwast a phryd min-nos.

Am fanylion pellach, cysyllter â:

Bob ac Ann Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. Tel (01766) 831356.




# Peace Shop

**56 Mackintosh Place, Roath, Caerdydd CF2 4RQ. Tel: 01222 489260**

**Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o – Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef. Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**

# CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH, 56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CAERDYDD

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin SA20 OLR Ffon/facs (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

# Be fyddwch chi'n 'i wneud ym mis Awst?

Helpwch i hyrwyddo ein hymgyrch dros heddwch, cyfiawnder a byd di-niwclear!

Eleni, cynhelir y Steddfod Genedlaethol yn y Bala, o'r 2il i'r 9fed o Awst. Os ydych yn siarad Cymraeg neu'n dysgu, mae arnom angen eich help i alw sylw at ein hymgyrch ym mhabell CND Cymru.

Cewch docyn mynediad am ddim ac amser yn rhydd i fynd o gwmpas y Maes – ac fe gewch bod Eisteddfodwyr yn llawn cydymdeimlad!

Os gallwch helpu, cysylltwch â Rod Stallard ar (01550) 750 260, da chi.

Eisteddfod Genedlaethol meirion a'r cyffiniau
awst 2 - 9 august
1997

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Côd Post __________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ____

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Mai 1997.
- Ffoniwch Jill am y dyddiad cau nesaf.
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (01550) 750260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 488748, email 100533.241@compuserve.com) am fanylion
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.